TASG DDARLLEN ANLLENYDDOL
TERMAU AR GYFER TRAFOD TECHNEGAU

TERM	ESBONIAD/EFFAITH
teitl/pennawd	• hoelio sylw – oes cyflythreniad? Odl? Chwarae ar eiriau?
lleihad	• dweud llai nag a feddylir – 'understatement' • er mwyn pwysleisio rhyw agwedd **neu** • er mwyn dibrisio rhywun e.e. mae e'n gallu rhedeg yn weddol (a hwnnw'n ennill dros Gymru)
gormodiaith	• dweud mwy nag a feddylir – 'exaggeration' • ymestyn stori • mynd dros ben llestri • er mwyn bod yn ddramatig; yn ddoniol ...
vox pop	• llais y bobl • ychwanegu amrywiaeth i'r darn trwy roi sawl agwedd • gwneud y darn yn fwy byw, yn fwy realistig ...
gwrtheiriad	• dau beth gwrthgyferbyniol gyda'i gilydd e.e. ennill cosb • 'oxymoron' • er mwyn rhoi adeiladwaith diddorol; rhoi sioc i'r darllenydd
is-bennawd	• is-deitl - 'sub-title' • cael trefn
chwarae ar eiriau/geiriau mwys	• 'puns' • cymorth cyntaf olaf • jyglo oriau'r dydd (wrth ddisgrifio bywyd yn y syrcas) • yr awdur yn arddangos cyfoeth iaith/arddull
defnydd o liw	• cyfleu naws/teimlad/thema e.e. lliw coch i gyfleu rhybudd neu Gymreictod; lliw gwyrdd i gyfleu maes chwarae e.e. rygbi
defnydd o lun	• pwysleisio rhyw agwedd arbennig e.e. lleoliad; person; cartŵn; ymateb pobl ...
ebychiad	• (!) cyfleu sioc/syndod • ychwanegu cyffro/elfen ddramatig
ffont trwm	• 'bold print' • geiriau yn sefyll mas = pwysleisio geiriau allweddol, pwysig
pwyntiau bwled	• gosod y prif bwyntiau yn glir i'r darllenydd
elipsau	• (...) brawddegau toredig • dangos rhywun yn torri ar draws ... • awgrymu – gadael i'r darllenydd feddwl/dychmygu ...
ystadegau	• defnyddio rhifau neu ganrannau – 'statistics' • bod yn benodol
Cofiwch: gallwch chi ddefnyddio eich termau beirniadaeth lenyddol hefyd e.e. ansoddeiriau (neu brinder ansoddeiriau); cyffelybiaeth; gwrthgyferbyniad; trosiad; delwedd; ailadrodd; idiomau; eironi; berfau cryno ...	